



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales




Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- 1: Datblygu sgiliau**, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog
- 2: Cynorthwyo pobl i ymgysylltu â diwylliant** yn eu gwaith bob dydd, gan ddangos ein pobl broffesiynol ddiwylliannol ar eu gorau
- 3: Defnyddio ymyriadau diwylliannol a ieithyddol** i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach
- 4: Defnyddio diwylliant a'r Gymraeg** i sbarduno newid economaidd ac amgylcheddol
- 5: Galluogi ein dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu** â'u diwylliant hwy eu hunain a diwylliannau eraill





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinir y nod hwn fel

*“cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod
diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg
ac sy'n annog pobl i gyfranogi
yn y celfyddydau a chwaraeon a
gweithgareddau hamdden.”*



Diffinio'r nod

Mewn datganiad enwog dywedodd Mahatma Gandhi bod “diwylliant cenedl yn bodoli yng nghalonau ac eneidiau ei phobl.”

Mae'r celfyddydau a diwylliant yn bwysig i'n holl fywydau. O fod yn aelod o'ch clwb chwaraeon lleol, i ymweld â'r theatr yn ystod y penwythnos, neu ganu mewn côr, mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwneud ein bywyd yn werth ei fyw. Yng Nghymru, mae cysylltiad cryf rhwng diwylliant â'n treftadaeth a'r iaith Gymraeg; dyna sydd yn ein gwneud yn unigryw.

Yn ystod adegau o galedi, fodd bynnag, gellir camdehongli'r celfyddydau a diwylliant fel rhywbeth 'braf i'w gael' neu hyd yn oed fel moethusrwydd – pan fydd tystiolaeth yn dangos bod gwerthfawrogi'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fanteisiol i'n llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y bydd creadigrwydd ar ben y rhestr fel y sgil fwyaf dymunol ar gyfer y dyfodol. Mae angen mwy o gymorth traws sector i hybu cyfranogiad mewn, ac ymgysylltiad â diwylliant, yn cynnwys y celfyddydau, chwaraeon

a gweithgareddau oriau hamdden, yn ogystal â'r Gymraeg. Mae mynediad cyfartal i'r celfyddydau felly'n hollbwysig ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Drwy hybu a gwarchod ein diwylliant a'n treftadaeth, rydyn ni'n dod i werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer newid cymdeithasol a'u potensial ar gyfer cyflawni ffyniant a chydnerthedd. Defnyddir diwylliant yn y ddogfen hon fel term sy'n cwmpasu archifau, celfyddydau, iaith, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, chwarae a chwaraeon.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.

Glas Glas Blaned?



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Hybu a gwarchod y Gymraeg.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 1: Cynorthwyo'r Gymraeg\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer y dyfodol.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 3: Diwylliant fel mecanwaith ar gyfer newid\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu potensial i gyflawni ffyniant a chydnerthedd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd\).](#)

Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden, a gwerthfawrogi creadigrwydd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 2: Gwerthfawrogi Creadigrwydd\).](#)

Annog sefydliadau i sicrhau bod y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden ar gael i bawb.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 5: Diwylliant ar gael i bawb\).](#)

Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

Mae'n ofynnol i **gyrff cyhoeddus** lynu wrth y ddeddfwriaeth sy'n eu cwmpasu ac unrhyw gytundeb a wnaethpwyd rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru neu eu Corff a Noddir.

Pasiwyd **Mesur y Gymraeg** gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, gan sefydlu Safonau'r Gymraeg. Gellir cael mwy o wybodaeth ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#).

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau a awgrymir yn y ddogfen hon yn unol â Safonau'r Gymraeg, felly dylai gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn eu cyflawni eisoes - caiff y camau a'r gweithrediadau hyn eu hamlygu mewn oren gyda'r symbol 'St'. Mae rhai o'r camau, tra'n ymddangos fel rhai sy'n cyd-fynd ag ethos y safonau, yn gofyn i gyrff cyhoeddus fynd gam ymhellach gan wneud mentrau iaith a chyfleoedd yn rhan annatod o'u sefydliad.



Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd strategaeth genedlaethol a lleol yn bodoli.
- Pan fydd sefydliadau'n deall sut i fanteisio i'r eithaf ar asedau fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celf ac adeiladau hanesyddol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o botensial creadigrwydd (yn arbennig ymhlith pobl broffesiynol ddiwylliannol) i gynorthwyo newid mewn llunio polisi a'r gymdeithas ehangach.
- Pan fydd datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yn cael ei adeiladu o gwmpas eu cynnig diwylliannol.
- Pan fydd partneriaethau arloesol ar gael sy'n caniatáu i ddiwylliant fod yn fwy gweladwy mewn bywyd bob dydd, er enghraifft cysylltu'r agendau diwylliannol ac iechyd.
- Pan fydd prosiectau o'r gorffennol yn dangos effaith hirdymor buddsoddi mewn diwylliant ac iaith.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- Pan na fydd dealltwriaeth neu werthfawrogiad o gyfraniad diwylliant a'r Gymraeg i ganlyniadau ehangach a'r agenda atal.
- Pan fydd cymorth yn un tymor byr neu ariannu ar gyfer prosiectau yn cael ei gyfyngu gan amser, neu pan fydd prosiectau peilot yn lleihau'r cyfle ar gyfer effaith parhaol.
- Pan fydd tystiolaeth neu arwyddion yn gyfyng ar gyfer 'profi' gwerth ac effaith.
- Pan fydd gweithgareddau diwylliannol a ieithyddol yn digwydd mewn seilos.
- Pan na fydd darlun llawn o asedau diwylliannol lleol yn bodoli (yn cynnwys adeiladau, mannau agored a phobl) a phan na fydd cysylltiad rhyngddynt â darpariaeth amcanion ehangach.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

**Gymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu**

4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd

Defnyddio diwylliant a'r Gymraeg i sbarduno newid
economaidd ac amgylcheddol

Diffinio'r mater

Mae ymchwil diweddar gan Nesta'n dangos bod y diwydiannau creadigol yng Nghymru'n tyfu ddwywaith yn gynt nag mewn sectorau eraill. Mae tystiolaeth o'r Swistir a Chanada'n dangos perthynas gadarnhaol rhwng dwyieithrwydd a GDP. Ac nid oes angen gwneud dim mwy na gweld y rhyfel diweddar yn erbyn plastig yn dilyn rhaglen Blue Planet 2 David Attenborough i wybod bod gan ymyrraeth ddiwylliannol rôl allweddol i'w chwarae wrth addysgu ein dinasyddion am faterion byd-eang ehangach.

Mewn byd lle mae angen gwerthfawrogi creadigrwydd wrth i ni symud tuag at awtomatiaeth, mae angen i ni ddefnyddio'n cryfderau i'r eithaf a chynorthwyo datblygiad cenedl ddiwylliannol sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru lewyrchus
Pwnc 3: Economiâu lleol



Taith tuag at Gymru gydnerth
Pwnc 3: Gwybodaeth am natur

Gwneud **Newidiadau** Syml

Polisi

Mapiwch ardaloedd o dir cyhoeddus sy'n hygyrch ar gyfer eu defnyddio gan y gymuned.

Partneriaethau / Sgiliau

Sefydliadau diwylliannol / timau i ddod yn aelodau o'r Consortiwm Celfyddydau Awyr Agored Cymru a arweinir gan [Articulture](#) – partneriaeth gydweithredol sy'n rhannu arfer gorau ac sy'n comisiynu cynnyrch diwylliannol.

Bod Yn Fwy Anturus

Polisi

Nodwch a hyrwyddwch ardaloedd o dir cyhoeddus sy'n hygyrch ar gyfer gweithgaredd diwylliannol.

Mewn prosesau tendro graddfa fawr, sicrhewch ei bod yn ofynnol i ddiwylliant gael ei gynnwys mewn cynlluniau Lles Cymunedol.

Ystyriwch sut mae artistiaid a phobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn gwneud iawn am eu hól-troed carbon mewn polisi; gan gydnabod bod angen i bobl broffesiynol ddiwylliannol deithio i ehangu'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig i Gymru, a gosod Cymru ar lwyfannau rhyngwladol a datblygu gyrfaoedd diwylliannol cynaliadwy.

ee

e.e. **Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** yn gwneud iawn am allyriadau carbon a gynhyrchir gan staff sy'n teithio fel rhan o'u gwaith drwy gyfrannu at elusen. [Gweler yr adroddiad blynyddol. Tud. 93.](#)

Partneriaethau

Cydnabyddwch dwristiaeth ddiwylliannol fel cyfrwng i ennill llwyddiant economaidd a chynorthwywch dimau diwylliannol a sefydliadau i ddatblygu'r elfen hon o'u gwaith drwy hybu ar y cyd ddiwyddiadau a gweithgareddau a gwaith partneriaeth allblyg i sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn effeithiol gan gynorthwyo ymgysylltiad â busnesau lleol i facsimeiddio effaith a mantais.

Datblygwch bartneriaethau amgylcheddol a diwylliannol sy'n ymwneud â materion allweddol lleol a rhanbarthol, er enghraifft mewn perthynas â Datganiadau Ardal, rheoli adnoddau naturiol mewn dull cynaliadwy a.y.y.b.

Bod Yn Fwy Anturus

Byddwch yn rhan o ddatblygu canllawiau ar y cyd gyda'r sector amgylcheddol a'r sector diwylliannol, i gynorthwyo arfer gorau wrth ddefnyddio safleoedd treftadaeth a thir cyhoeddus ar gyfer ymyriadau diwylliannol.

e.e **Partneriaethau CADW gyda Chyfoeth Naturiol Cymru** ([Gwyllo'r Môr Criccieth](#)) – gan ddefnyddio safleoedd treftadaeth i gynorthwyo cydnerthedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Galluogwch gydweithredu rhwng unigolion a rheolwyr safle a'r sector diwylliannol i gynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnyrch diwylliannol ar safleoedd treftadaeth ac yn yr amgylchedd naturiol.

Sgiliau

Cynorthwywch sefydliadau diwylliannol ac unigolion i fod yn ymwybodol o'r 6 nod llesiant arall fel y gallant adnabod a chyfleu'r modd y maent yn cwrdd â'i gilydd.

Cydnabyddwch potensial diwylliant yn natblygiad sgiliau a sgiliau'r dyfodol yn arbennig ym mhob lleoliad addysgol a dysgu gydol oes.

e.e **Stori Andrew**
<https://youtu.be/2luvJQTKz5Q>

e.e. **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** fel gofod dysgu amgen – effaith mynd â dysgu allan o'r dosbarth.

Llesiant Staff

Datblygwch fodelau o fuddsoddi corfforaethol i gynorthwyo gweithgaredd diwylliannol ar gyfer llesiant staff a thwf yr economi diwylliannol.

e.e partneriaeth nawdd **Admiral** a **NoFit State Circus** – sy'n defnyddio offerynnau diwylliannol i gynorthwyo llesiant staff mewn busnes preifat, ac wrth wneud hynny yn cynorthwyo busnes diwylliannol lleol.

Bod Yn Fwy Anturus

Ymgysylltiad Cymunedol

Ystyriwch gyfleoedd i ddatblygu offerynnau clywedol/ gweledol, arddangosfeydd a pherfformiadau sy'n ennyn ymgysylltiad dinasyddion â gweithredu cadarnhaol, a dangoswch yn glir pam fod materion cyfredol economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn bwysig.

e.e. **Partneriaeth Mudo gyda'r RSPB** - partneriaeth gyda sefydliad diwylliannol i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol.

e.e. **Head4Arts Awry Ddaear** – yn defnyddio dulliau diwylliannol i wneud cymunedau lleol yn ymwybodol o'u gweithredu amgylcheddol ac ymrwymo i newid ymddygiad.

<https://vimeo.com/328447100/639a05c913>.

Cydnabyddwch, gwobrwywch a dathlwch raglenni diwylliannol (yn yr un modd ag yr ydym yn dathlu chwaraeon a cherddoriaeth) i godi proffil diwylliant yn lleol a chenedlaethol/rhyngwladol.

e.e. **Y Gwobrau dysgu Inspire!**

https://youtu.be/Md8jx0g_pLg

Defnyddiwch weithgaredd diwylliannol a lleoliadau i hybu dysgu am yr amgylchedd naturiol a chynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol.

e.e. **Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Ford** i blannu coed mewn hen ardaloedd glofaol – gan gysylltu diwylliant, ffyniant hanesyddol â'r amgylchedd.

Datblygwch gyfleoedd i ddathlu a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru i ehangu a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol yn lleol ac fel rhan o'r darlun cenedlaethol.

e.e. **safleoedd preswyl/ gweithgareddau'r Urdd** - diwylliant a'r Gymraeg yn cael eu dathlu.

ee

ee

ee

ee

ee

CARTREF

Bod Yn Fwy Anturus

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol

Polisi Pensaernïaeth a Dylunio i Gymru wedi ei ddatblygu'n genedlaethol a'i weithredu'n lleol.

Partneriaethau tirwedd diwylliannol wedi eu sefydlu rhwng y sectorau diwylliannol ac economaidd gydag ymagweddau arloesol yn cael eu datblygu i liniaru'r materion allweddol a nodwyd.

Partneriaethau diwylliannol yn cael eu datblygu sy'n cyd-fynd â'r model Cyfuno i gynorthwyo datblygu sgiliau a chyflogadwyedd.

ee

e.e. **Rhaglen Gyfuno** – Partneriaeth Llywodraeth Cymru gyda gwahanol randdeiliaid i fuddsoddi mewn diwylliant fel dull o ddatblygu sgiliau newydd.

Y sector diwylliannol yn ymgyfrannu mewn datblygu prosiectau seilwaith mawr cyhoeddus fel bod amcanion llesiant niferus yn cael eu cyflawni a chanfyddiadau o Gymru a'i diwylliant yn cael eu gwella e.e. Mae heol A494 Queensferry yn ddolen gyswilt ar gyfer Gogledd Cymru.

Gweithredu Sefydliadol

Partneriaethau

Cydweithredwch gyda'r sector diwylliannol i ddatblygu cynnyrch â'r pŵer i newid canfyddiadau pobl am faterion allweddol cenedlaethol a rhyngwladol megis defnyddio plastig.

Byddwch yn rhan o gytundebau strategol rhwng tîrfeddianwyr a sefydliadau diwylliannol ac anogwch nhw i fod yn allblyg wrth facsimeiddio ar y cyd y defnydd o dir yng Nghymru ar gyfer gweithgaredd diwylliannol.

ee

e.e. **Mudo** – sefydliad diwylliannol yn datblygu partneriaethau sy'n cynorthwyo ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymhlith cynulleidfaoedd.

Bod Yn Fwy **Anturus**

Ymgysylltiad cymunedol

Defnyddiwch ganolfannau

diwylliant lleol fel ffynonellau cyfleoedd ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion megis deori busnesau, cyrchu cynnyrch/gwasanaethau/canolfannau ymyriadau iechyd.

Defnyddiwch realiti Rhithwir

ac Estynedig i ennyn, mewn dull creadigol, unigolion a sefydliadau i ysgogi dulliau newydd o feddwl ac adnabod canlyniadau gweithredu.

Enghreiffitiau ac adnoddau eraill



Eisteddfod Genedlaethol / Y Dyn Gwyrdd

– effaith a photensial gwyliau yn natblygiad ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hunaniaeth.



Zip World – yn datblygu busnes mewn ardal o ddiddordeb hanesyddol.



Gŵyl Afon Dyffryn Gwy – yn ennyn ymgysylltiad cymunedau drwy Wyl i godi ymwybyddiaeth o faterion/effeithiau amgylcheddol.



Tŷ Pawb, Wrecsam – gofod diwylliannol cydweithredol wrth galon y gymuned yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd.



Modelau o Ddinas Diwylliant y DU – yn buddsoddi mewn diwylliant i sbarduno adferiad a ffyniant.



Vetch Veg / Nawr yr Arwr

– ymyriadau cydweithredol diwylliannol i gynorthwyo datblygu sgiliau a thwf yn yr economi lleol.



Prifysgol Warwick – sut fedrai Prydain sicrhau mwy o werth o'i hasedau diwylliannol.



Dyfi biosphere – yn cysylltu diwylliant, cymunedau a'r economi.



Yr Alban / Llychlyn hunaniaeth bensaernïol yn rhan o hunaniaeth ddiwylliannol yn ogystal â chyfrannu tuag at yr economi.



Angel of the North yn cynorthwyo datblygiadau newydd a chanfyddiad o Tyneside.